

# EISTEDDFOD

## Gwaith y Pwyllgor Cronfa Leol

### 1. Swyddogion y pwyllgor fydd yn arwain ar y gwaith a'r trafodaethau, sef:

- **CADEIRYDD:** Dyletswydd y Cadeirydd yw arwain ac ysbrydoli'r aelodau wrth gadeirio'r pwyllgorau yn effeithlon, gan gynrychioli barn y pwyllgor yn y Pwyllgor Gwaith.
- **YSGRIFENNYDD:** Prif swyddogaeth yr Ysgrifennydd yw cofnodi yn gywir a threfnus ac mewn Cymraeg graenus, gan anfon copi o'r cofnodion at y Trefnydd drwy e-bost o fewn tri diwrnod ar ôl y cyfarfod.

Bydd y Cadeirydd yn dod yn swyddog o'r Pwyllgor Gwaith.

### 2. Rheolau Sefydlog – cyn gwneud dim arall, mae angen eu darllen a'u derbyn yn swyddogol fel pwyllgor.

### 3. Cronfa Leol

Sefydlir cronfa leol ymhob ardal ble y cynhelir yr Eisteddfod gyda'r prif nod o godi swm penodol o arian i gynorthwyo gyda'r gost o gynnal yr Eisteddfod. Yn sgil sefydlu cronfa cynhelir myrdd o weithgareddau i godi arian dros y cyfnod yn arwain at yr Eisteddfod sydd ynddynt eu hunain â gwerth diwylliannol hynod bwysig gan eu bod yn dod a chymunedau ynghyd.

Yn goruchwyllo'r holl waith yma mae'r Pwyllgor Cronfa Leol fydd maes o law yn cael ei wneud i fyny o gynrychiolaeth o'r pwyllgorau apêl unigol a sefydlir yn ardal yr Eisteddfod.

Unwaith y bydd pwyllgorau lleol wedi eu sefydlu bydd y Pwyllgor Cronfa Leol yn cwrdd pob rhyw 6 wythnos ar gyfartaledd i rannu arfer da ac i dderbyn adroddiadau ariannol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfa Leol yn rhinwedd y swydd yn dod yn un o brif swyddogion y Pwyllgor Gwaith.

### 4. Cyfathrebu

Bydd elfen gyfathrebu i waith y pwyllgor yn cynnwys gweithredu fel lladmeryddion yn lleol ar hyd a lled y dalgylch. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn dosbarthu deunyddiau'n lleol, gan sicrhau bod taflenni / posteri ayb yn cyrraedd pob rhan o'r ardal, yn drefol ac yng nghefn gwlad. Bydd y pwyllgor yn chwarae rhan allweddol i weithredu ymgyrchoedd lleol Strategaeth Gyfathrebu'r Eisteddfod mewn cydweithrediad gyda'r Pwyllgor Profiad Ymwelwyr a Marchnata

Bydd ystod eang o ddeunyddiau'n cael ei greu yn ystod y cyfnod arweiniol, a bydd y pwyllgor yn cynghori sut i'w ddsbarthu'n lleol, gan greu cysylltiadau gyda phartneriaid posibl a all ddsbarthu gwybodaeth ar ran yr Ŵyl er mwyn hwyluso'r gwaith o gyrraedd ein cynulleidfaedd targed.

Bydd cyfle i drefnu stondinau a gweithgareddau mewn digwyddiadau lleol, gan gynorthwyo i gysylltu a siarad gyda threfnwyr lleol, a chynorthwyo wrth greu calendr o weithgareddau sydd eisoes yn bodoli fel gall yr Eisteddfod eu mynychu er mwyn hyrwyddo'r Ŵyl.

Yn ystod y misoedd cyntaf 2020, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar y Cyhoeddi ac yna'n ystod yr ail flwyddyn, ar y Brifwyl ei hun. Byddwn yn canolbwyntio ar ychwanegu enwau at y bas-data ar gyfer cylchlythyr electronig yr Ŵyl dros y ddwy flynedd, a gofynnir i'r Pwyllgor gefnogi hwn gan ddsbarthu'r cylchlythyr yn electronig i'w cysylltiadau lleol, a chan annog pobl i gofrestru gyda'r Eisteddfod yn ganolog.

### 5. Prif waith Y Pwyllgor

- Cynorthwyo staff yr Eisteddfod i rannu dalgylch yr Eisteddfod yn ardaloedd apêl hyfyw
- Cynorthwyo staff i bennu targedau ariannol unigol ar gyfer pob ardal
- Adnabod ac annog cydgysylltwyr ar gyfer pob ardal
- Cynrychiolwyr ar y pwyllgor i weithredu fel dolen gyswllt rhwng y pwyllgor Cronfa Leol a'r pwyllgorau apêl unigol

- Rhannu gwybodaeth a syniadau am weithgareddau gan geisio osgoi cynnal digwyddiadau mewn ardaloedd cyfagos yr un pryd!
- Mewnbynnu manylion gweithgareddau a drefnir yn enw'r Eisteddfod ar y wefan
- Gweithredu fel dolen gyswllt i adnabod a meithrin perthynas gyda sector fusnes y dalgylch i geisio cymorth ariannol a nawdd corfforaethol
- Ceisio dwyn perswâd ar gynghorau tref a chymuned y dalgylch i gydweithio mewn partneriaeth a chefnogi'r pwyllgorau apêl leol
- Annog trigolion i gyfrannu gwobrau tuag at yr Eisteddfod
- Bod yn ddyfeisgar a meddwl am syniadau neu ymgyrchoedd cynhwysol a gwahanol i godi arian
- Cynorthwyo i weithredu ymgyrchoedd lleol Strategaeth Gyfathrebu'r Eisteddfod

## 6. Cyfarfod

Y flaenoriaeth dros yr wythnosau cyntaf fydd mynd ati i rannu'r dalgylch, adnabod cydgysylltwyr a gosod targedau unigol. Byddwn yn cychwyn ar yr elfen hynod bwysig yma o'r gwaith ar 13 Hydref

---

**Alwyn Roberts, Pennaeth Gweithredu Cymunedol**- [alwyn@eisteddfod.org.uk](mailto:alwyn@eisteddfod.org.uk)

**Gwenllïan Carr, Pennaeth Cyfathrebu**- [gwenllian@eisteddfod.org.uk](mailto:gwenllian@eisteddfod.org.uk)

Swyddfa'r Eisteddfod, Uned 15 Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Sir y Fflint, CH7 1XP / 0845 409 0400

**Peter Davies, Pennaeth Cyllid**- [peter@eisteddfod.org.uk](mailto:peter@eisteddfod.org.uk)

**Elaine Stokes, Swyddog Cyllid**- [elaine@eisteddfod.org.uk](mailto:elaine@eisteddfod.org.uk)

Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU / 0845 409 0300